OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1174 (Cy.122)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*25 Ebrill 2002*
Yn dod i rym - -	*1 Gorffennaf 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) (Diwygio) (Cymru) 2002; maent yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2002.

Diwygio Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) 1999

2.—(1) I'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, diwygir Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) 1999(**3**) yn unol â pharagraffau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn y diffiniad o "export dedicated establishment" ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli), mewnosodir y cymal "and may include such establishments which prepare DBES goods destined for placing on the market in the United Kingdom" ar ôl y gair "below".

(3) Ym mharagraff (a) o'r diffiniad o "export eligible goods" ym mharagraff (1) o reoliad 2, mewnosodir y cymal "(other than any such goods destined for placing on the market in the United Kingdom)" ar ôl y gair "goods" yn y lle y mae'n ymddangos gyntaf.

(4) Ym mharagraff (1)(b) o reoliad 12 (cymeradwyo sefydliadau ar gyfer paratoi neu anfon nwyddau o darddiad tramor sy'n gymwys i'w hallforio, nwyddau'r CASD a'r CABH a sgil-gynhyrchion buchol o darddiad tramor) mewnosodir y gair "origin" yn lle'r gair "original".

(5) Ym mharagraff (3)(a) o reoliad 12, mewnosodir y cymal "or DBES goods destined for placing on the market in the United Kingdom" ar ôl y gair "goods" yn y lle y mae'n ymddangos ddiwethaf.

(6) Ym mharagraff (3)(c)(i) o reoliad 12, mewnosodir y cymal "other than DBES goods destined for placing on the market in the United Kingdom" ar ôl y gair "abroad".

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1999/1103, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/1554 ac O.S. 2000/656.